



Ysgol Gynradd Newydd Arfaethedig yng Nghricieth **Datganiad Trafnidiaeth**

Safle Wedi'i Leoli ar yr A497, i'r Gorllewin o Gricieth,
Gwynedd

20 Ebrill 2021



Taflen Rheoli Dogfen

Teitl y Ddogfen:	Ysgol Gynradd Newydd - Cricieth, Gwynedd
Awdur y Ddogfen:	Alwyn Parry / Derec Morgan
Rhif Cyfeirnod / Teitl y Prosiect:	CPF7418 – Ysgol Gynradd Newydd – Cricieth, Gwynedd – Datganiad Trafnidiaeth
Rheolwr Prosiect:	Derec Morgan

Hanes Adolygu

Dyddiad	Rhif Fersiwn	Crynodeb o Newidiadau
03/08/2020	0.01	Fersiwn ddrafft
19/11/2020	0.02	Diwygiadau yn dilyn adborth gan y cleient
26/01/2021	drafft	Cynnwys Data Traffig
5/03/2021	Drafft terfynol	
27/04/2021	Terfynol	Diwygiadau yn dilyn y cyfarfod adolygu

Adolygiadau

Enw	Teitl	Dyddiad	Fersiwn
Cefin Edwards	Uwch Beiriannydd	27/04/2021	Terfynol

Cymeradwyaeth


Enw	Teitl	Dyddiad	Fersiwn
Owen Rhys Jones	Rheolwr yr Uned	27/04/2021	Terfynol

Dosbarthiad

Enw	Teitl	Dyddiad	Fersiwn
Richard Farmer	Noddwr y Prosiect	28/04/2021	Terfynol

© 2020-21 Cyngor Gwynedd / YGC. Cedwir Pob Hawl.

Mae hawlfraint unrhyw ran neu'r cyfan o'r ddogfen hon yn perthyn i Gyngor Gwynedd / Ymgynghoriaeth Cyngor Gwynedd yn Swyddfeydd y Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH (y 'Perchennog') ac ni ellir ei defnyddio, ei gwerthu, ei throsglwyddo, ei chopio na'i hatgynhyrchu yn gyfan neu'n rhannol mewn unrhyw ffurf na dull nac ar unrhyw gyfrwng i unrhyw berson heblaw bod hynny'n unol â thelerau cytundeb y Perchennog neu fel arall heb ganiatâd ysgrifenedig y Perchennog ymlaen llaw.



Cynnwys

1.0 Cyflwyniad	4
2.0 Cefndir	5
2.1 Lleoliad Arfaethedig y Safle	5
2.2 Yr Ysgol Bresennol	6
2.2 Y Rhwydwaith Ffyrdd Lleol	6
2.3 Maint y Traffig a Data ar Gyflymder	6
3.0 Y Datblygiad Arfaethedig	9
3.1 Trosolwg	9
3.2 Trefniadau Arfaethedig i Gael Mynediad i'r Safle	10
4.3 Parcio Ceir a Beiciau	12
3.4 Gwasanaethu'r Safle	12
3.5 Dadansoddiad Llwybr Cerbydol	13
4.0 Adolygiad o Bolisi Cynllunio	14
4.1 Cyflwyniad	14
4.2 Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 11 - Chwefror 2021	14
4.3 Polisi Lleol - Cynllun Trafnidiaeth Lleol Gogledd Cymru 2015	15
4.4 Polisiâu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd	15
5.0 Adolygiad Trafnidiaeth Gynaliadwy	18
5.1 Cyflwyniad	18
5.2 Cynladwyedd a Hygyrchedd y Safle	18
5.3 Cerdded	19
5.4 Hygyrchedd ar Feic	19
5.5 Cludiant Cyhoeddus	20
6.0 Creu Traffig	22
6.1 Trosolwg	22
7.0 Crynodeb a Chasgliadau	23
Atodiadau	25
Atodiad 1: Gosodiad Arfaethedig Safle'r Datblygiad	26
Atodiad 2: Asesiad Llwybr Cerbydol	28
Atodiad 3: Darluniau Cynlluniau Cynigion Priffyrdd	29

1.0 Cyflwyniad

- 1.1 Comisiynwyd Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy (YGC) gan Adran Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd, i ddarparu Datganiad Trafnidiaeth i gefnogi cais cynllunio ar gyfer datblygiad ysgol gynradd newydd ar dir ger yr A497, i'r gorllewin o dref Cricieth.
- 1.2 Mae'r datblygiad yn cynnwys adeiladu ysgol gynradd newydd gan gynnwys caeau chwarae allanol, ffordd fynediad, gofod parcio ceir a gwaith i wella ffyrdd ar hyd yr A497. Ar hyn o bryd, mae'r safle yn gaeau agored a ddefnyddir fel tir pori i anifeiliaid fferm. Disgwylir i'r ysgol fod â lle ar gyfer oddeutu 140 o ddisgyblion, gyda nifer ychwanegol yn mynychu'r ysgol feithrin.
- 1.3 Mae'r Datganiad Trafnidiaeth hwn wedi cael ei baratoi i hyrwyddo'r mesurau trafndiaeth lleol sydd ar gael i deithio i'r safle ac annog dulliau teithio cynaliadwy.
- 1.4 Mae strwythur y Datganiad Trafnidiaeth fel a ganlyn:
 - Pennod 1 – Cyflwyniad
 - Pennod 2 - Darparu manylion lleoliad y safle, y defnydd presennol a gwybodaeth am yr ardal o amgylch.
 - Pennod 3 - Disgrifio'r cynigion datblygu, gan gynnwys y gwelliannau mynediad arfaethedig, trefniadau'r maes parcio a mesurau gwasanaethu'r safle.
 - Pennod 4 - Rhoi adolygiad o bolisiâu cynllunio a thrafnidiaeth cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.
 - Pennod 5 - Ystyried lleoliad y safle o ran yr isadeiledd trafndiaeth cynaliadwy lleol presennol.
 - Pennod 6 - Amcangyfrif nifer y teithiau aml-ddull sy'n cael eu creu gan y datblygiad a'u dosbarthiad.
 - Pennod 7 - Crynodeb a chasgliad i'r Datganiad Trafnidiaeth hwn sy'n dod o ganlyniad i'r wybodaeth yn y penodau blaenorol.

2.0 Cefndir

2.1 Lleoliad Arfaethedig y Safle

2.1.1

Mae'r safle wedi'i leoli ar ymylon gorllewinol tref arfordirol Cricieth a cheir mynediad i'r safle yn uniongyrchol o Ffordd Sirol yr A497 ar y chwith ar ôl y troead i Lôn Fêl. Mae'r A497 yn rhedeg drwy ganol Cricieth, gan gysylltu Porthmadog i'r dwyrain a Phwllheli i'r gorllewin. Mae blaen yr ysgol a'r brif fynediad i gerbydau yn agor allan i'r A497, gyda mynediad ychwanegol i ddefnyddwyr di-fodur wedi'i lleoli ymhellach i'r gorllewin o'r fynedfa gerbydol. Dengys cynllun gosodiad safle dangosol o'r ysgol arfaethedig yn Ffigwr 2.1 isod, ac yn Atodiad 1.



Ffigwr 2.1 1 - Cynllun Dangosol o Leoliad y Safle

2.1.2

Mae'r safle yn gae glas ar hyn o bryd ac yn cael ei ddefnyddio ar gyfer da byw / ffermio. Mae'r safle ei hun wedi'i amgylchynu gan gaeau agored tebyg gyda lein Rheilffordd Arfordir y Cambria yn rhedeg ar hyd ei ffin ddeheuol.

2.1.3

Y tu hwnt i ffin y safle, mae mwynderau lleol gan gynnwys siopau, bwytai a gorsaf betrol, arosfannau bws ac ati, yng Nghricieth ei hun, gyda'r cyfan o fewn 500 metr o safle'r ysgol arfaethedig.

2.2 Yr Ysgol Bresennol

2.2.1

Lleolir yr ysgol bresennol yng Nghricieth ei hun ac fe ellir cael mynediad ati oddi ar Ffordd Henbont. Mae ei chyflwr wedi dirywio'n araf dros y blynyddoedd diwethaf, gan arwain at gostau sylweddol i gywiro'r diffygion sydd wedi'u hadnabod. Felly, penderfynwyd defnyddio arian i adeiladu ysgol gynradd newydd, yn hytrach nag uwchraddio'r ysgol bresennol i ddod â hi i fyny i'r safon gofynnol.

2.2 Y Rhwydwaith Ffyrdd Lleol

2.2.1

Mae'r A497 yn ffordd gerbydau un lôn sy'n arwain drwy Gricieth, gan gysylltu Porthmadog i'r dwyrain a Phwllheli i'r gorllewin. Mae'r A497 yn mesur oddeutu 10.0 metr o led ar flaen y safle ac mae hefyd yn elwa o oleuadau stryd hyd at yr arwyddion diwedd y parth 30mya.

2.2.2


Mae cyfyngiad cyflymder 30mya mewn grym ar hyd yr A497 drwy Gricieth. Daw'r cyfyngiad cyflymder i ben ger ffin yr ysgol arfaethedig a'r cyfyngiad cyflymder cenedlaethol sy'n weithredol ar gyfer gweddill blaen y safle, ynghyd â'r A497 i'r gorllewin tuag at Llanystumdwy. Mae'r cyfyngiad cyflymder o 30mya ar yr holl ffyrdd blaenllaw eraill o amgylch y safle. Mae llwybr troed ar un ochr i'r ffordd ar hyd blaen y safle. Y tu hwnt i gyffordd Lôn Fêl, mae llwybrau troed ar y ddwy ochr i'r A497 i mewn i Gricieth.

2.2.3

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw Orchmynion Rheoleiddio Traffig yn bresennol ar yr A497 o fewn cyffiniau'r safle.

2.3 Maint y Traffig a Data ar Gyflymder

Cynhaliwyd arolygon cyflymder a maint traffig mewn dau leoliad rhwng 19 a 25 Tachwedd 2020 (cynwysedig). Gweler Ffigwr 2.3 isod. Roedd y pwynt arolygu wedi'i leoli gyferbyn â'r gilfan i'r gorllewin o Gricieth o fewn y parth cyfyngiad cyflymder cenedlaethol, a'r pwynt arolygu cyflymder arall wedi'i leoli ger yr arwyddion 30mya wrth ddod i mewn i Gricieth. Dengys canlyniadau'r arolygon yn Nhabl 1.



Ffigwr 2.3 - Lleoliad Arolygon Cyflymder a Maint Traffig

2.3.1

Cofnododd yr arolygon traffig feintiau traffig dros gyfnod o saith diwrnod, mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r llif dyddiol cyfartalog ar gyfer dydd Llun i ddydd Gwener. Mae hefyd yn dangos y llif traffig rhwng 8am a 9am, sef yr adeg pan fo ysgolion yn agor fel arfer, ac hefyd rhwng 3pm a 4pm, sef yr adeg pan fo'r ysgolion yn gorffen am y dydd.

Lleoliad	Llif Cyfartalog o Ddydd Llun i Ddydd Gwener	Llif Cyfartalog o Ddydd Llun i Ddydd Gwener Bore 8am - 9am	Llif Cyfartalog o Ddydd Llun i Ddydd Gwener Prynhawn 3pm - 4pm
	Gyda'i gilydd		
Cilfan yr A497 i'r gorllewin o Gricieth	4,705	416	440
Arwyddion 30mya ar yr A497 i'r gorllewin o Gricieth	4,498	413	439
Cyfartaledd	4,601	415	440

Tabl 1 - Data Arolwg Traffig

Mae llif cyfartalog o 4,601 ymhell o fewn capasiti arferol y math hon o ffordd.

Lleoliad	Cyflymder Cyfartalog	Cyflymder 85ed%	Cyflymder Cyfartalog	Cyflymder 85ed%	Cyflymder Cyfartalog	Cyflymder 85ed%
	Gyda'i gilydd		I mewn i'r dref		Allan o'r dref	
Cilfan yr A497 i'r gorllewin o Gricieth	40.6	46.1	40.5	46.3	40.7	46.1
Arwyddion 30mya ar yr A497 i'r gorllewin o Gricieth	33.2	38.7	30.9	35.6	35.5	40.7
Gwahaniaeth	7.4	7.4	9.6	10.7	5.2	5.4

Tabl 2 - Data Arolwg Cyflymder

Mae'r cyfartaledd a gofnodwyd a'r cyflymder 85ed canradd yn lleoliad yr arwyddion 30mya oll dros y cyfyngiad 30mya.

3.0 Y Datblygiad Arfaethedig

3.1 Trosolwg

3.1.1

Mae'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys adeiladu adeilad ysgol newydd a darpariaeth barcio cysylltiedig a ffordd fynediad yn y darn o dir gwag fel y trafodwyd ym mhwynt 2.1.1. Bydd yr ysgol yn un-llawr gyda pwyntiau mynediad gwastad i'r adeilad. Mae gosodiad safle arfaethedig y datblygiad wedi'i gynnwys yn Atodiad 1

3.1.2

Y tu allan, bydd Ardal Gemau Aml-ddefnydd, fydd ag arwyneb artiffisial ar gyfer gweithgareddau chwaraeon amrywiol. Hefyd, bydd cae chwarae glaswellt ar y safle, ynghyd ag ardaloedd gwyrdd / wedi'u tirlunio ychwanegol. Plannir llystyfiant a choed er mwyn lleihau effaith y datblygiad ar yr ardal o amgylch. Darperir mynediad cerbydol newydd ar ochr Cricieth y safle, gyda mynediadau ar wahân i gerddwyr i'r dwyrain o'r brif fynedfa gerbydol.

3.1.3

Bydd y gilfan bresennol yn union i'r gorllewin o'r fynedfa arfaethedig yn aros ar agor gan ei bod yn cael ei defnyddio'n rheolaidd gan y cyhoedd ac er dibenion cynnal a chadw ffyrdd.

3.1.4

Darperir lôn troi i'r dde i hwyluso mynediad i'r safle; byddai hyn yn lleihau unrhyw oedi posib i draffig tua'r dwyrain ac yn darparu gwell diogelwch ar gyfer y traffig sy'n troi i'r dde. Mae'r math hwn o osodiad cyffordd yn addas ar gyfer llif traffig o gyfuniad o hyd at 5,000 o gerbydau y dydd ar y ffordd ochr, a 10,000 o gerbydau y dydd ar y brif ffordd. Mae'r llif traffig hyn yn sylweddol uwch na'r llif traffig presennol a'r hyn a ragwelir i'r dyfodol. Ni fyddai'r nifer o gerbydau a ragwelir fydd yn troi i'r dde yn cyfiawnhau cyflwyno cyffordd gyda signalau na chyffordd ar gylchfan yma. Y ddogfen ddylunio berthnasol yw CD 123 - '*Geometric design of at-grade priority and signal-controlled junctions*', yn y Llawlyfr Dylunio ar gyfer Ffyrdd a Phontydd.

3.1.5

Wrth deithio i'r gorllewin drwy Gricieth, mae'r cyfyngiad cyflymder o 30mya ar yr A497 yn dod i ben o flaen safle arfaethedig yr ysgol. Y cyfyngiad cyflymder cenedlaethol, 60mya, sy'n weithredol ar gyfer gweddill blaen y safle ac ymhellach i'r gorllewin tua Llanystumdwy. Bwriedir cyflwyno parth 20mya ar yr A497 fydd yn ymestyn ar hyd blaen yr ysgol arfaethedig; bydd y parth hwn yn mesur o leiaf 200 metr o hyd. I'r gorllewin o'r parth 20mya, byddai parth clustogi 40mya, yn o leiaf 400 metr o hyd, yn cael ei gyflwyno i arafu'r traffig sy'n teithio tua'r dwyrain cyn iddynt gyrraedd y parth 20mya. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried gosod cyfyngiad cyflymder o 20mya fel y cyfyngiad diofyn ar ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru ac mae ganddo bolisi o gyflwyno cyfyngiadau cyflymder o 20mya ger ysgolion ar y rhwydwaith cefnffyrdd. Hefyd, bwriedir ymestyn y golau stryd i gynnwys y parth 20mya.

3.2 Trefniadau Arfaethedig i Gael Mynediad i'r Safle

3.2.1

Lleolir y prif fynedfa i'r safle oddi ar yr A497 a bydd lle i ddau gerbyd basio ei gilydd yn y fynedfa ac ar y ffordd fynediad. Bydd y gwelededd wrth ddefnyddio'r fynedfa yn unol â safonau presennol. Yn y fynedfa, bydd ffordd yn arwain i fyny at yr ysgol sy'n dolennu yn ôl arni hi ei hun a bydd hyn yn sicrhau bod modd i gerbydau fynd a dod o'r safle wrth symud ymlaen, heb orfod bagio i gwblhau'r symudiad. Hefyd, darperir parthau gollwng/codi teithwyr i geir, ynghyd â chilfan bws, ar safle'r ysgol.

3.2.2

Bydd y gwelededd ym mynedfa arfaethedig yr ysgol yn 90 metr i'r dwyrain ac i'r gorllewin ar hyd yr A497 wrth gael ei fesur o bwynt sydd 4.5 metr o ymyl yr A497, fel y nodwyd yn safon dylunio 'CD 123 *Geometric design of at-grade priority and signal-controlled junctions*'.

3.2.3

Mae llwybr troed ar un ochr i'r ffordd ar hyd blaen y safle. Ar ôl pasio cyffordd Lôn Fêl, mae llwybrau troed ar y ddwy ochr i'r A497 i mewn i Gricieth. Mae'r llwybr troed ar ymyl gogleddol yr A497 yn arbennig o gul ac felly y llwybr troed deheuol fyddai'r llwybr dewisol i'r ysgol. Byddai croesfan heb ei rheoli wedi'i lleoli i'r gorllewin o'r A497 / cyffordd Stad Gorseddafa i gysylltu â'r llwybr troed gogleddol. Mae'r llwybrau troed yn cysylltu'r safle â chanol y dref, ardaloedd preswyl, gorsafoedd bws, gorsaf reilffordd ac yn y blaen. Byddai gwella'r ddarpariaeth llwybrau troed yn annog pobl a phlant i gerdded i'r ysgol ac o bosib byddai hyn yn lleihau nifer y siwrneiau mewn car i'r ysgol. O ganlyniad, mae modd i gerddwyr gael mynediad i'r safle o ganol y dref, ardaloedd preswyl, gorsafoedd bws, gorsaf reilffordd ac yn y blaen.

3.2.4

Mae'r rhan o Lôn Fêl i'r de o'r A497 ar ffin ddwyreiniol y safle ac mae'n gwasanaethu ardal breswyl fawr. Mae'n ffordd gul heb unrhyw lwybrau troed am ran helaeth ohoni. Mae'n arbennig o gul wrth bont rheilffordd, lle nad oes ond lle i draffig sy'n teithio i'r un cyfeiriad arni ar yr un pryd. Dylid rhoi gwybod i ddisgyblion a rhieni nad yw hwn yn llwybr addas i'r ysgol i gerddwyr. Fodd bynnag, bydd gwelliannau diogelwch, megis gwell arwyddion a marciau ffordd yn cael eu cyflwyno i rybuddio gyrwyr y gall cerddwyr fod ar y ffordd gerbydau a bod y ffordd yn culhau yn sylweddol.

3.2.4

Bydd mynediad pwrpasol i gerddwyr i'r ysgol fydd yn baralel â, ond wedi'i wahanu oddi wrth, y fynedfa gerbydol oddi ar yr A497. Bydd y mynedfeydd i gerddwyr i'r safle yn darparu dull diogel o fynd i mewn i adeilad a thiroedd yr ysgol.

4.3 Parcio Ceir a Beiciau

3.3.1

Nodir safonau parcio ceir yn Safonau Parcio Cymru gan Gymdeithas Syrfewyr Sirol (CSS) ac, ar gyfer datblygiad fel hwn, fyddai'n dod o dan Sefydliadau Addysgol wedi'u lleoli ym Mharth 4 - Is-trefol neu ger Trefol, mae'r gofynion fel a ganlyn:

Sefydliadau Addysgol

Ysgolion Meithrin / Babanod / Cynradd:

- Gweithredol - 1 Gofod Cerbyd Masnachol
- Anweithredol - 1 gofod i bob aelod o staff dysgu a 3 gofod i ymwelwyr

3.3.2

Disgwylir y bydd oddeutu 16 o staff dysgu, sydd gyfystyr â 19 gofod parcio. Mae'r cynnig yn darparu cyfanswm o 37 gofod parcio wedi'u marcio ar y safle (gan gynnwys pedwar sydd yn leiniau parcio hygyrch i ddefnyddwyr anabl), ac 1 gofod i gerbyd masnachol. Mae nifer y gofodau parcio yn darparu digon o ofod parcio ar y safle, o gymharu â'r gofyniad a nodir uchod.

3.3.3

Yn ogystal, bydd gofod parcio ar gael ar hyd y ffordd fynediad, os oes angen, yn ystod cyfnodau prysurach, h.y. nosweithiau rhieni, cyngherddau, ac ati.

3.3.4

Bydd darpariaeth parcio beiciau ar gael ar y safle, gyda standiau beiciau wedi'u cysgodi a'u goleuo wedi'u lleoli ger adeilad yr ysgol. Rhagwelir y bydd y standiau beiciau yn annog beicio ac yn hyrwyddo Teithio Llesol.

3.3.5

Yn ogystal â'r ddarpariaeth barcio uchod, gellir cael mynediad rhwydd ar droed ac mae hyn yn hyrwyddo'r defnydd o gyfleusterau parcio ar y stryd ac oddi ar y stryd sydd wedi'u lleoli'n agos at y safle.

3.4 Gwasanaethu'r Safle

3.4.1

Bydd modd i'r safle gael ei wasanaethu gan gerbydau ysbwriel / ailgylchu, cerbydau danfon a cherbydau'r gwasanaethau brys. Dylai pob cerbyd fedru cael mynediad i'r safle, troi yn y safle a gadael y safle ac ymuno â'r briffordd gyhoeddus wrth symud ymlaen.

Bydd ardal storio gwastraff ac ailgylchu bwrpasol yn cael ei lleoli yn y safle, heb unrhyw rwystr, er mwyn hyrwyddo mynediad ati.

3.5 Dadansoddiad Llwybr Cerbydol

3.5.1

Mae mynedfa arfaethedig y safle a'i gosodiad wedi'u hasesu gan ddefnyddio dadansoddiad llwybr cerbydol o'r safle. Dengys y dadansoddiad y bydd modd i gerbydau ddefnyddio'r safle'n ddidrafferth, gan gynnwys y fynedfa, y ffordd fynediad a'r gofodau parcio. Hefyd, dengys y gall defnyddwyr y safle droi rownd a gadael y safle wrth symud ymlaen heb unrhyw broblem. Gweler Atodiad 2.

4.0 Adolygiad o Bolisi Cynllunio

4.1 Cyflwyniad

4.1.1

Mae'r datblygiad arfaethedig wedi'i ystyried yn unol â'r polisiâu perthnasol sy'n ymwneud â phrifydd a thrafnidiaeth a cheir crynodeb ohonynt isod.

4.2 Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 11 - Chwefror 2021

4.2.1

O ran y polisi trafndiaeth cenedlaethol sy'n berthnasol i'r Asesiad Effaith Trafnidiaeth, cyhoeddwyd argraffiad 11 o Bolisi Cynllunio Cymru ym mis Chwefror 2021 gan Lywodraeth Cymru ac mae'n nodi fframwaith ar gyfer awdurdodau cynllunio Cymru i baratoi eu cynlluniau datblygu. Mae Adran 4.1 Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r ymagwedd at Drafnidiaeth.

4.2.2

Dywed paragraff 4.1.9 PCC, 'Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i leihau'r ddibyniaeth ar y car preifat a chefnogi newid i ddulliau teithio fel cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus'. Mae safle'r cynnig wedi'i leoli'n ddelfrydol ar ffin Cricieth fel y gall ei ddarpar feddianwyr ddefnyddio'r cyfleusterau cludiant cyhoeddus a chysylltiadau i gerddwyr sydd ar gael yn y dref, yn enwedig gyda'r cyfleusterau gwell i ddefnyddwyr di-fodur y safle, er mwyn hyrwyddo Teithio Llesol.

Pwysleisir y pwyntiau hyn ymhellach ym mharagraff 4.1.10, sy'n gofyn i'r system gynllunio gefnogi datblygiadau sydd:

- yn cael eu lleoli yn y mannau iawn, lle mae'n hawdd defnyddio dulliau teithio cynaliadwy heb fod angen car
- yn cael eu dylunio mewn ffordd sy'n eu hintegreiddio â'r defnydd a wneir o'r tir ar hyn o bryd ac â chymdogaethau; ac
- sy'n ei gwneud yn bosib mynd ar deithiau byr yn y datblygiad a thu hwnt yn rhwydd ar droed ac ar feic.

Gan gyfeirio at Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, mae paragraff 4.1.27 PCC yn nodi mai cerdded a beicio yw'r dull a ffafir ar gyfer siwrneiau byrrach. Mae'r Ddeddf yn gofyn i awdurdodau lleol adnabod a chreu rhwydweithiau cwbl integredig ar gyfer cerdded a beicio i gael mynediad at waith, addysg, gwasanaethau a chyfleusterau.

4.3 Polisi Lleol - Cynllun Trafnidiaeth Lleol Gogledd Cymru 2015

4.3.1

Lluniwyd y Cynllun Trafnidiaeth Lleol (CTLI) hwn ar y cyd rhwng chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru, sef Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam.

4.3.2

Ei weledigaeth ar gyfer Trafnidiaeth yng ngogledd Cymru yw:

'Mae Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru yn anelu i gael gwared ar rwystrau i dwf economaidd, ffyniant a lles trwy gyflwyno rhwydweithiau trafndiaeth diogel, cynaliadwy, fforddiadwy ac effeithiol.'

4.3.3

Mae'r materion Trafnidiaeth Pellach i Ogledd Cymru yn cael eu hadnabod fel a ganlyn:

- Gallu'r coridorau cefnffyrdd a rheilffyrdd strategol i ddarparu'r cysylltedd da angenrheidiol, ar gyfer cludo pobl a llwythi yng ngogledd Cymru, i'r porthladdoedd ac i weddill y DU i gefnogi'r economi a swyddi, yn cynnwys twristiaeth.
- Diffyg gwytnwch y rhwydweithiau ffordd a rheilffordd i ddigwyddiadau dirybudd a digwyddiadau oedd yn hysbys cynt, yn cynnwys tywydd garw.
- Yr angen am fynediad da i'r tri Pharth Menter yng ngogledd Cymru a rhyngddynt.
- Diffyg dewisiadau amgen hyfyw a fforddiadwy yn hytrach na char i gael mynediad i safleoedd cyflogaeth allweddol a gwasanaethau eraill.
- Yr angen am gysylltiadau ffordd da i / o'r rhwydwaith cefnffyrdd i'r ardaloedd gwledig i helpu i gynnal hyfywedd busnesau lleol a chefnogi'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig.

4.4 Polisiâu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

4.4.1

Ymysg y polisiâu sy'n ymwneud â phriffyrdd yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd lle mae Asesiadau Trafnidiaeth a Datganiadau Trafnidiaeth yn cael eu cynnwys ynddynt mae:

Polisi Strategol PS4 - Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygiad a Hygyrchedd

Lleolir datblygiadau fel y gellir lleihau'r angen i deithio. Bydd y cynghorau'n cefnogi gwelliannau i drafndiaeth sy'n mwyhau hygyrchedd drwy'r holl ddulliau cludiant, ond yn enwedig ar droed, beicio a chludiant cyhoeddus. Cyflawnir hyn drwy sicrhau mynediad hawdd drwy droedffyrdd, isadeiledd beicio a chludiant cyhoeddus lle bo'n briodol ac felly annog y defnydd o'r dulliau cludiant hyn ar gyfer teithiau lleol a lleihau'r angen i deithio â char.

Bydd y Cyngor yn ceisio gwella hygyrchedd a cheisio newid ymddygiad teithio. Cyflawnir hyn drwy weithio gyda'n partneriaid er mwyn:

1. Cynnal gwasanaeth cludiant cyhoeddus priodol, gan gydnabod ffyrdd amgen o gynnal cyfleoedd teithio;
2. Cynnal a chadw a gwella gorsafoedd, isadeiledd a gwasanaethau ar y prif Linellau Rheilffyrdd gan gynnwys mynediad i bobl anabl a gwelliannau eraill sy'n ymwneud â rheilffyrdd;
3. Lle bo hynny'n bosib, diogelu, gwella, mwyhau a hyrwyddo hawliau tramwy cyhoeddus (gan gynnwys llwybrau troed, llwybrau ceffyl a chilffyrdd), a rhwydweithiau llwybrau beicio i wella diogelwch, hygyrchedd (gan gynnwys pobl anabl), drwy'r dulliau teithio a chynyddu buddion iechyd, hamdden, llesiant a thwristiaeth ar gyfer trigolion lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd);
4. Cefnogi cynlluniau fydd yn gwella cludiant gan gynnwys cyfleusterau parcio a theithio / rhannu cyfleusterau ar gyfer meysydd cyflogaeth, datblygiadau newydd a chyfleusterau trosglwyddo llwythau;
5. Pennu neu ddiogelu tir ble bo'n briodol er mwyn hwyluso'r cynlluniau cludiant strategol allweddol.

Yn ogystal, bydd y cynghorau yn gofyn am gyflwyno'r elfennau isadeiledd cludiant allweddol a ganlyn fel rhan o gynlluniau datblygu isadeiledd mawr.

POLISI TRA2 – Safonau Parcio

Dylai'r ddarpariaeth barcio ar gyfer pob dull o deithio fod yn unol â Safonau Parcio'r Cynghorau.

Mewn amgylchiadau eithriadol, gellid caniatáu cynigion os gellir dangos bod modd cwrdd â'r gofynion parcio yn foddhaol oddi ar y safle, naill ai drwy ddarpariaeth uniongyrchol neu drwy dalu symiau yn gyfnewid.

Anogir darparu cyfleusterau parcio bysus er mwyn annog bysus i ymweld â Chanolfannau Gwasanaeth yn ardal y Cynllun.

Polisi TRA4 - Rheoli Ardrawiadau Cludiant

Ble bo'r angen ceisir darpariaeth ddiogel a chyfleus ar y cyd â datblygiadau ar gyfer:

1. Cerddwyr, gan gynnwys pobl gyda phramiau ac/neu plant ifanc.
2. Pobl anabl â phobl â phroblemau symudedd ac anghenion mynediad penodol.
3. Beicwyr.
4. Cerbydau dwy olwyn â phŵer.
5. Cludiant Cyhoeddus.

6. Mynediad i gerbydau a rheolaeth traffig o fewn y safle a'r ardal o'i gwmpas.
7. Parcio ceir a'u gwasanaethu.
8. Mannau parcio i fysis.
9. Marchogion.

Ni chaniateir datblygiadau a fyddai'n peri niwed annerbyniol i weithrediad diogel ac effeithlon y briffordd, cludiant cyhoeddus a rhwydweithiau cludiant eraill gan gynnwys llwybrau i gerddwyr, beicwyr, hawliau tramwy cyhoeddus a llwybrau ceffyl.

5.0 Adolygiad Trafnidiaeth Gynaliadwy

5.1 Cyflwyniad

5.1.1

Mae'r bennod a ganlyn yn edrych ar hygyrchedd y safle drwy ddulliau teithio cynaliadwy, gan gynnwys:

- Cerdded
- Beicio
- Cludiant Cyhoeddus


5.2 Cynaliadwyedd a Hygyrchedd y Safle

5.2.1

Bydd angen i'r gwaith o ddatblygu'r safle fodloni'r amcanion cynaliadwyedd allweddol sy'n berthnasol i gynllunio a thrafnidiaeth sef:

- Lleihau'r angen i deithio'n benodol mewn car / cerbyd preifat.
- Sicrhau bod hygyrchedd ar gael i wahanol opsiynau teithio cynaliadwy.

Dengys y ffigwr a ganlyn y dalgylch o filltir ar gyfer yr ysgol arfaethedig, lleoliadau cartrefi'r disgyblion a'r llwybr y byddant fwyaf tebygol o'i ddilyn i'r ysgol newydd.



Ffigwr 5.2.1 - Cartrefi Disgyblion a'r Llwybrau Cerdded Tebygol

5.3 Cerdded

5.3.1

Saif y safle i'r dwyrain o Gricieth ac o fewn ardal hynod hygyrch i gerddwyr, gyda llwybrau troed yn arwain i fyny i'r safle o ganol y dref ei hun ac o'r gorllewin ar hyd yr A497. Wrth ddod at y safle o ganol y dref, mae'r llwybr hwn wedi'i oleuo'n dda â goleuadau stryd, er y bydd angen ymestyn y system goleuadau stryd i gynnwys blaen yr ysgol arfaethedig. Dengys ffigwr 5.2.1 y gallai dros 41 o ddisgyblion ddefnyddio'r A497 o'r gorllewin o'i chyffordd â'r B411, yng nghanol Cricieth, i gael mynediad i'r ysgol arfaethedig. Saif Lôn Fêl i'r de o'r A497, ar ffin ddwyreiniol y safle ac mae'n gwasanaethu ardal breswyl fawr; rhagwelir y byddai rhwng 11 ac 20 o ddisgyblion yn defnyddio'r ffordd hon i gael mynediad i'r ysgol arfaethedig. Mae'n ffordd gul heb unrhyw lwybrau troed am ran helaeth ohoni. Mae'n arbennig o gul wrth bont rheilffordd, lle nad oes ond lle i draffig sy'n teithio i'r un cyfeiriad arni ar yr un pryd. Dylid rhoi gwybod i ddisgyblion a rhieni nad yw hwn yn llwybr addas i'r ysgol i gerddwyr. Fodd bynnag, byddai gwelliannau diogelwch, megis gwell arwyddion a marciau ffordd, yn cael eu cyflwyno.

5.3.2

Bydd y groesfan heb ei rheoli yn Lôn Fêl ar ei chyffordd deheuol â'r A497 yn cael ei lledu a'i huwchraddio i gynnwys cyrbau gwastad a phalmant gweadog. Byddai croesfan heb ei rheoli ar yr A497 yn cael ei chyflwyno yn uniongyrchol i'r gorllewin o gyffordd Stad Gorseddfa. Byddai'r ddau fesur hwn yn helpu i hyrwyddo llwybr diogel i'r ysgol.

5.3.3

Nodir yn y Strategaeth Cerdded a Beicio ar gyfer Cymru, dyddiedig 2003, *'Mae oddeutu 8% o siwrneiau car yng Nghymru yn llai na milltir, mae 26% yn llai na dwy filltir a 58% yn llai na phum milltir. Ar gyfer y pellteroedd hyn, gall cerdded a beicio fod yn ddewis amgen hyfyw a deniadol.'* Hefyd, mae'n nodi mai'r pellter ymarferol ar gyfer siwrneiau ar droed yw hyd at filltir. Mae Cricieth gyfan o fewn dalgylch o filltir o'r safle arfaethedig, gan olygu bod modd i ganran uchel o ddefnyddwyr / ymwelwyr yr ysgol, gerdded i'r ysgol.

5.4 Hygyrchedd ar Feic

5.4.1

Gan gyfeirio eto at y Strategaeth Cerdded a Beicio ar gyfer Cymru, dyddiedig 2003, nodir ym mharagraff 5.1.2 yn 1999 / 2001 bod oddeutu 20% o siwrneiau yn llai na milltir a 54% o siwrneion llai na 5 milltir yn cael eu gwneud mewn car. Eto, mae'r pellteroedd hyn yn cael eu cydnabod yn gyffredinol fel pellter ymarferol i'w gerdded a'i feicio.

5.4.2

Yn union i'r dwyrain o safle arfaethedig y datblygiad, mae Llwybr Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol 8 (NCN8) yn rhedeg i'r de ar hyd Lôn Fêl gan groesi'r A497. Mae hwn yn llwybr hirfaith sy'n cysylltu Caergybi â Chaerdydd ac fe'i adnabyddir hefyd fel Lôn Las Cymru. Mae'r

Ilwybr beicio yn teithio ar hyd Lôn Fêl, gan basio nifer o stadau preswyl, gan gynnwys Muriau, Penaber, Gwaun Ganol a Rhosbach. Mae'r rhan o Lôn Fêl i'r gogledd o'r A497 yn arbennig o gul a serth a byddai hyn yn rhwystr i'w ddefnyddio fel llwybr beicio neu gerdded i'r ysgol arfaethedig. Ar y rhan ddeheuol, mae nifer o eiddo eraill ar hyd y llwybr a byddai modd iddynt hwy ddefnyddio'r llwybr draw at yr ysgol. Bydd gwelliannau'n cael eu gwneud i gysylltu'r ysgol arfaethedig â NCN8, yn y cyffyrdd gogleddol a deheuol ar Lôn Fêl gyda'r A497. Bydd hyn yn cynnwys lledu'r llwybrau troed ar y naill ochr o'r A497 o Lôn Fêl draw at yr ysgol arfaethedig.

5.4.3

Bydd beicio i'r safle ac oddi yno draw i Gricieth a'r ymylon yn hygyrch, a bydd hyn yn annog pobl i deithio ar siwrneion byr, gan gael gwared ar yr angen am gerbydau modur, ac yn ei dro, hyrwyddo dull teithio cynaliadwy.

5.5 Cludiant Cyhoeddus

5.5.1

Mae dau arhosfan bws wedi'u lleoli oddeutu 75 metr i'r dwyrain o'r brif fynedfa i'r safle arfaethedig, y bydd modd i ymwelwyr i'r safle eu defnyddio. Mae'r pellter hwn yn gwbl dderbyniol yng nogfen ganllaw'r Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Thrafnidiaeth (CIHT), 'Guidelines for Planning for Public Transport in Developments'. Yn adran 6.20, mae'n datgan yr hyn a ganlyn:

'Bus stops are located to minimise passengers' walking distance to their final destination. The maximum walking distance to a bus stop should not exceed 400 metres and preferably be no more than 300 metres.'

Gweler isod tabl yn rhoi crynodeb o'r gwasanaethau bws a thrên sy'n hygyrch i/o Gricieth:

Rhif y Gwasanaeth	Llwybr	Math	Nifer cyfartalog y Gwasanaethau (Dyddiau'r wythnos a dydd Sadwrn)		Dydd Sul	
			I	O	I	O
3	Cricieth – Porthmadog	Bws	7	7	5	5
3	Cricieth – Pwllheli	Bws	7	7	5	5
Trên	Pwllheli i Borthmadog	Rheilffordd	8	8	8	8

Tabl 2 - Crynodeb o'r Gwasanaeth Bws a Thrên

5.5.2

Lleolir gorsaf reilffordd Cricieth oddeutu 410 metr i ffwrdd o'r safle arfaethedig. Ar ddyddiau'r wythnos a phob dydd Sadwrn a dydd Sul, mae o leiaf 8 gwasanaeth yn gadael Cricieth gan deithio i Borthmadog neu Bwllheli. Mae hyn yn darparu cyswllt trafndiaeth da iawn i Gricieth o leoliadau sydd ymhellach i ffwrdd.

5.5.3

Mae Tabl 2 uchod yn dangos pob gwasanaeth sy'n gadael ac yn cyrraedd y canolfannau cludiant hyn, ynghyd â nifer cyfartalog y gwasanaethau sydd ar gael bob dydd. Dengys yn glir bod teithio ar y rheilffordd yn opsiwn ar gyfer ymweld â'r ysgol, pe byddai angen.

6.0 Creu Traffig

6.1 Trosolwg

6.1.1

Gweler isod asesiad o'r effaith ar y rhwydwaith priffyrdd o ganlyniad i'r datblygiad.

6.1.2

Cynhaliwyd yr arolwg traffig saith diwrnod rhwng 19 a 25 Tachwedd 2020; gweler y canlyniadau yn adran 2.3. Cofnodwyd y llif cyfartalog dyddiol o ddydd Llun i ddydd Gwener yn 4,601, sydd ymhell o fewn capasiti arferol y math hon o ffordd.

6.1.3

Y cyfnodau brig ar gyfer y cynnig fydd y cyfnodau brig safonol yn y bore a gyda'r nos pan fo'r cyfnod danfon i'r ysgol/nôl o'r ysgol yn digwydd. Cofnodwyd y llif cyfartalog ar gyfer cyfnodau brig y bore a'r prynhawn o ddydd Llun i ddydd Gwener yn 415 a 440 yn ôl eu trefn. Gan bod ysgol gynradd yng Nghricieth eisoes, ac mai bwriad i ddisodli'r ysgol bresennol yw hwn, ni ddylai'r traffig a grëir mewn perthynas â'r ysgol newydd fod yn llawer. Felly, mae'n rhesymol dweud bod y symudiadau i'r safle eisoes ar y rhwydwaith priffyrdd, ac mai'r cwbl sy'n digwydd yma yw newid yng nghyrchfan y traffig.

6.1.4

Saif y lleoliad mewn ardal sydd â mynediad at wahanol ddulliau cludiant cynaliadwy, megis cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus ar y stepen drws, ynghyd â mynediad at gyfleusterau lleol megis siop fwyd, swyddfa bost, cyfleuster iechyd, ac ati. O ystyried y lleoliad hwn a'r amrywiaeth o opsiynau trafndiaeth sydd ar gael, bydd nifer y teithiau mewn cerbyd modur a grëir yn llai o gymharu â lleoliad lle nad oes fawr o gysylltiadau trafndiaeth gynaliadwy yn bodoli.

6.1.5

Yn sgîl y pwyntiau uchod, disgwylir mai ychydig o effaith gyffredinol y caiff y cynnig ar y rhwydwaith priffyrdd sy'n amgylchynu safle'r datblygiad arfaethedig.

7.0 Crynodeb a Chasgliadau

7.1

Mae'r Datganiad Trafnidiaeth hwn wedi cael ei baratoi gan YGC i hyrwyddo'r mesurau trafndiaeth lleol sydd ar gael i deithio i'r safle ac annog dulliau teithio cynaliadwy sy'n ymwneud â'r ysgol gynradd newydd arfaethedig oddi ar yr A497, Cricieth, ar gyfer Adran Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd.

7.2

Nid oes disgwyl i'r cynnig greu unrhyw gynnydd sylweddol mewn symudiadau traffig gan bod ysgol wedi'i lleoli yn y dref eisoes. Bydd y symudiadau presennol yn ail-leoli i safle newydd sy'n hawdd i'w gyrraedd, gan leihau'r effaith ar y ffyrdd presennol sy'n arwain at safle presennol yr ysgol.

7.3

Er mwyn darparu amgylchedd ffyrdd mwy diogel ger yr ysgol arfaethedig ac annog siwrneiau cynaliadwy i'r ysgol ac oddi yno, bydd y mesurau a ganlyn yn cael eu cynnwys yn y cynllun:-

- Parth 20mya, sy'n mesur o leiaf 200 metr; parth clustogi 40mya, sy'n mesur o leiaf 400 metr; a goleuadau stryd ger safle arfaethedig yr ysgol.
- Darpariaeth parcio beiciau wedi'i chysgodi a'i goleuo wedi'i lleoli ger adeilad yr ysgol.
- Yn Lôn Fêl (de), gwella'r arwyddion a'r marciau ffordd ger pont y rheilffordd.
- Lledu ac uwchraddio'r groesfan heb ei rheoli yn Lôn Fêl ar ei chyffordd deheuol â'r A497.
- Darparu croesfan heb ei rheoli ar yr A497 yn uniongyrchol i'r gorllewin o gyffordd Stad Gorseddfa.
- Lledu'r llwybrau troed ar y naill ochr o'r A497 o Lôn Fêl draw at yr ysgol arfaethedig.

7.4

Mae'r cynnig yn darparu cyfanswm o 37 gofod parcio wedi'u marcio ar y safle, gan gynnwys pedwar sydd yn leiniau parcio hygyrch ac 1 gofod i gerbyd masnachol. Yn ogystal, argymhellir darparu cysgodfa i feiciau yn eiddo'r ysgol ger adeilad yr ysgol.

7.5

Nid oes disgwyl i adleoliad yr ysgol i safle newydd gael effaith negyddol ar y rhwydwaith ffyrdd o gymharu â'i lleoliad presennol yn y dref. Cesglir na fydd y datblygiad yn cael effaith andwyol ar y rhwydwaith ffyrdd cyhoeddus o amgylch y safle.

7.6

I grynhoi, ac wrth ystyried y pwyntiau uchod, cesglir y bydd y cynnig datblygu ar gyfer yr ysgol newydd yn gynllun addas ar gyfer y lleoliad hwn. Drwy ddarparu trefniadau mynediad newydd, sy'n cysylltu â'r rhwydwaith ffyrdd presennol, ynghyd â digon o gyfleusterau parcio ar y safle, bydd modd i'r safle ymdopi â holl staff ac ymwelwyr yr ysgol. Yn ogystal, bydd dulliau trafndiaeth cynaliadwy yn ategu'r safle i'r dyfodol.

7.7

Wrth ddod i gasgliad, ac wrth ystyried yr uchod i gyd, rydym o'r farn nad oes rhesymau priffyrdd perthnasol dros wrthod y datblygiad arfaethedig yn y safle hwn.

Atodiadau

Atodiad 1: Gosodiad Arfaethedig Safle'r Datblygiad

Atodiad 2: Asesiad Llwybr Cerbydol

Atodiad 3: Darluniau Cynlluniau Cynigion Priffyrdd

Atodiad 1: Gosodiad Arfaethedig Safle'r Datblygiad





Atodiad 2: Asesiad Llwybr Cerbydol



Atodiad 3: Darluniau Cynlluniau Cynigion Priffyrdd

